INCWM, GWARIANT A STAFF

Mae'r adran yma'n cynnig cofnod manwl o'r ffordd y caiff gweithgareddau Tywysog Cymru a rhai ei Swyddfa eu hariannu, ac mae'n amlinellu cyfrifoldebau ei staff uwch. Caiff costau ei staff a'r rhan fwyaf o'i wariant ar weithgareddau swyddogol a gwaith elusennol eu talu o'r incwm a gaiff Ei Uchelder Brenhinol yn flynyddol drwy Ddugaeth Cernyw.

CYFRIF INCWM A GWARIANT

Am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth	**2005** £000oedd	**2004** £000oedd
Incwm ac ariannu	13,274	11,913
Dugaeth Cernyw	2,381	3,856
Grantiau Cymorth	307	292
Adrannau'r llywodraeth		
Cyfanswm incwm ac ariannu	**15,962**	**16,061**
Gwariant		
Dyletswyddau swyddogol a gweithgareddau elusennol	6,145	5,947
Grantiau Cymorth:		
Swyddfa Llundain a'r cartref swyddogol	1,242	2,951
Teithio swyddogol (awyrennau a threnau)	1,059	825
Cefnogaeth cyfathrebu	80	80
	2,381	**3,856**
Teithiau tramor ac eilwyr milwrol	307	292
Gwariant swyddogol	8,833	10,095
Treth a gwariant personol	5,226	4,406
Cyfanswm gwariant a threth	**14,059**	**14,501**
Gwarged gweithredu	1,903	1,560
Gwariant cyfalaf llai dibrisio, ad-daliadau benthyciad a throsglwyddo i gronfeydd wrth gefn	(1,772)	(1,442)
Gwarged arian net	**131**	**118**

INCWM AC ARIANNU

	£miliwn
Dugaeth Cernyw	**13.274**

Dugaeth Cernyw

Daw incwm Tywysog Cymru o Ddugaeth Cernyw, sy'n cynnwys tua 54,850 hectar o dir mewn 20 sir yn Ne Orllewin Lloegr yn bennaf. Mae'r stad yn cynnwys eiddo amaethyddol, masnachol a phreswyl. Mae portffolio o fuddsoddiadau ariannol gan y Ddugaeth hefyd.

Fe gafodd stad y Ddugaeth ei chreu yn 1337 gan Edward III ar gyfer Tywysog Edward, ei fab a'i etifedd. Prif bwrpas y Ddugaeth oedd i asedau'r stad weithredu fel incwm iddo ef ac i Dywysogion Cymru a fyddai'n ei ddilyn. Bu'n draddodiad ers canrifoedd i deuluoedd oedd yn berchen ar stadau roi'r tir ac asedau eraill mewn ymddiriedolaeth, fel y gallai'r naill genhedlaeth a'r llall fyw ar yr incwm heb allu cael gwared â'r asedau. Pwrpas gwneud hyn oedd gofalu y byddai'r stad, a'r incwm oedd yn dod ohoni, yn parhau o'r naill genhedlaeth i'r llall.

Roedd yr un egwyddor yn berthnasol i Ddugaeth Cernyw. Dan siarter 1337, fel yr oedd deddfwriaeth ddiweddarach yn ei gadarnhau, nid oes hawl gan Dywysog Cymru i elw a ddaw o werthu asedau cyfalaf. Dim ond yr incwm blynyddol y mae'r asedau'n ei greu y bydd y Tywysog yn ei gael. (Gall wirfoddoli i dalu treth incwm ar yr incwm yna.) Ar sail pwysigrwydd y buddiolwr, fe gafodd 'darpariaethau ymddiriedolaeth' y Ddugaeth eu gosod ar ffurf deddfwriaeth dros y blynyddoedd, gyda Thrysorlys Ei Mawrhydi'n goruchwylio sicrwydd ariannol y Ddugaeth.

Mae Ei Uchelder Brenhinol yn dewis defnyddio cyfran fawr o'r incwm o Ddugaeth Cernyw i dalu costau ei waith cyhoeddus ac elusennol.

Yn 2004-05, roedd yr incwm a ddaeth i Swyddfa Tywysog Cymru o'r Ddugaeth yn £13.274 miliwn, o'i gymharu â £11.913 miliwn yn 2003-04. Roedd llawer o'r cynnydd yn adlewyrchu effaith blwyddyn lawn ar ôl i'r Ddugaeth gael eiddo masnachol yn y flwyddyn flaenorol oedd yn rhoi mwy o elw, ac adolygiadau ar renti eiddo masnachol. Fe fuddsoddodd y Ddugaeth fwy o arian hefyd mewn bondiau, yn hytrach nag ecwitïau, a gynyddodd yr incwm. Mewn termau real, fe aeth rhent y rhan fwyaf o eiddo amaethyddol i lawr.

Mae Tywysog Cymru'n cymryd rhan weithredol yn y gwaith o redeg y Ddugaeth sydd, yn ôl deddfwriaeth seneddol, yn gorfod cael ei gweithredu ar sail fasnachol. Ond mae gofyn rheoli Dugaeth Cernyw drwy ddull stiwardiaeth dymor hir, oherwydd ei hanes hir ac ymrwymiad y Tywysog ei hun i drosglwyddo'r stad i'w olynwyr yn gryfach ac mewn gwell cyflwr nag yr oedd pan ddaeth e'n fuddiolwr arni.

Gan gofio hyn, mae Tywysog Cymru'n gofalu bod yr arferion amgylcheddol ac amaethyddol gorau, a gweithio drwy bartneriaethau â thenantiaid a chymunedau lleol, wrth wraidd dull y Ddugaeth o reoli. Fe ddangosodd nad yw gwarchod a chynnal cymunedau gwledig, a chefnogi gwaith crefft traddodiadol a phensaernïaeth, yn anghydnaws â chyflawni enillion ariannol boddhaol. Mae incwm y Ddugaeth a gwerth ei hasedau cyfalaf fel ei gilydd wedi cynyddu'n sylweddol yn y blynyddoedd diweddar.

Mae dadansoddiad o incwm Tywysog Cymru o Ddugaeth Cernyw rhwng y prif gategorïau o asedau'n dilyn:

Am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth	**2005** %	**2004** %
Eiddo masnachol	44	43
Tir amaethyddol a choedwigaeth	28	30
Eiddo preswyl	14	14
Asedau ariannol	14	13
Cyfanswm	**100**	**100**

Caiff cyfrifon blynyddol Dugaeth Cernyw eu cyhoeddi gan *The Stationery Office* (TSO) ac mae'n bosib archebu copi drwy'r post: TSO, Blwch Post 29, Duke Street, Norwich NR3 1PD; ar-lein: www.tso.co.uk/bookshop; dros y ffôn: 0870 6005522; drwy ffacs: 0870 6005533

	£miliwn
Grantiau Cymorth	**2.381**

Y Senedd sy'n rhoi'r arian i dalu costau swyddogol y Frenhines fel Pennaeth y Wladwriaeth neu waith i'w chefnogi, yn gyfnewid am ildio'r refeniw o Stad y Goron. Mae'r arian yma'n cael ei roi mewn tair ffordd: (i) Rhestr Sifil i'r Frenhines a Blwydd-dal Seneddol i Ddug Caeredin, (ii) Grantiau Cymorth, a (iii) costau sy'n cael eu talu'n uniongyrchol gan Adrannau'r Llywodraeth. Nid yw Tywysog Cymru'n cael arian o'r Rhestr Sifil, ond mae'r Grantiau Cymorth sy'n cael eu talu i Aelwyd y Frenhines yn cael eu defnyddio'n rhannol i gynnal ei weithgareddau swyddogol.

Mae tri Grant Cymorth: Grant Cymorth Gwasanaethau Eiddo, sy'n talu costau cynnal y cartrefi swyddogol a'r swyddfeydd sy'n cael eu defnyddio gan Aelodau o'r Teulu Brenhinol a'u staff; Grant Cymorth y Teithiau Brenhinol mewn Awyrennau a Threnau, sy'n talu costau'r teithiau swyddogol mae Aelodau o'r Teulu Brenhinol a'u staff yn eu gwneud mewn awyrennau a threnau; a'r Grant Cymorth Cyfathrebu a Gwybodaeth Frenhinol, sy'n gryn dipyn yn llai na'r ddau arall ac sy'n talu rhai o gostau cyfathrebu swyddogol Aelodau o'r Teulu Brenhinol.

Caiff cyfrifon blynyddol eu cyhoeddi ar gyfer y tri Grant Cymorth, ac am y Rhestr Sifil. Mae copïau ar gael ar www.royal.gov.uk neu mae'n bosib cael copïau gan Ddirprwy Drysorydd y Frenhines, Palas Buckingham, Llundain SW1A 1AA.

	£miliwn
Adrannau'r Llywodraeth	**0.307**

Mae'r Rhestr Sifil, y Blwydd-dal Seneddol a'r Grantiau Cymorth yn cynrychioli arian sy'n cael ei drosglwyddo i'r Aelwyd Frenhinol, a'i wario a'i reoli gan yr Aelwyd. Hefyd, mae Adrannau'r Llywodraeth yn talu'n uniongyrchol beth gwariant a ddaw yn sgil y gwaith o gefnogi'r Frenhines fel Pennaeth y Wladwriaeth. Yn achos Tywysog Cymru, mae Adrannau'r Llywodraeth yn talu'r gwariant ar gostau staff sydd wedi'u secondio o'r Gwasanaethau Arfog (fe wariodd y Weinyddiaeth Amddiffyn £221,000 yn 2004-05) a chostau ymweliadau tramor swyddogol sy'n cael eu gwneud ar gais y Swyddfa Dramor a Chymanwlad (fe wariodd y Swyddfa Dramor a Chymanwlad £86,000 yn 2004-05).

GWARIANT

	£miliwn
Dyletswyddau swyddogol a gweithgareddau elusennol	**6.145**

Fe gafodd ychydig llai na 50% o incwm Tywysog Cymru o Ddugaeth Cernyw ei wario ar ddyletswyddau swyddogol a gweithgareddau elusennol yn 2004-05. O'r £6.145 miliwn, aeth £3.814 miliwn i dalu costau'r staff a gefnogodd Ei Uchelder Brenhinol wrth iddo wneud ei ddyletswyddau swyddogol. Mae dadansoddiad o'r gwariant swyddogol ar dudalen 49.

Mae Tywysog Cymru'n cyflogi 135 o staff llawn amser a rhan amser ar ei Aelwyd, sy'n cyfateb i 122.9 o staff llawn amser. O'r rhain, mae 93.6 yn ei gefnogi wrth iddo ymgymryd â dyletswyddau swyddogol a gweithgareddau elusennol a 29.3 yn staff personol iddo ef, Duges Cernyw a Thywysog William a Thywysog Harry. O'r staff swyddogol, mae 5 wedi'u secondio heb gostau o'r Gwasanaethau Arfog fel sydd wedi'i ddisgrifio'n barod, a daw un arall ar secondiad heb gostau o fudiad arall.

Mae staff swyddogol Tywysog Cymru'n cael eu rhestru yn y tabl ar dudalen 44, yn ôl adran yr Aelwyd. Mae cyfanswm costau'r naill adran a'r llall, yn cynnwys cyflogau a gwariant arall, yn yr un tabl.

	£miliwn
Grantiau Cymorth: swyddfa Llundain a'r cartref swyddogol	**1.242**

Y Grant Cymorth Gwasanaethau Eiddo yw'r arian blynyddol a ddaw gan yr Adran dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon i Aelwyd y Frenhines i dalu costau cynnal y Palasau Brenhinol sydd â Phreswylwyr, a chostau gwasanaethau cysylltiedig penodol eraill.

Clarence House yw swyddfa a chartref swyddogol Tywysog Cymru, Duges Cernyw, Tywysog William a Thywysog Harry yn Llundain. Mae'n cael ei ddefnyddio ar gyfer ciniawau, derbyniadau a chyfarfodydd swyddogol, ac mae'n gweithredu hefyd fel swyddfeydd ar gyfer staff swyddogol Eu Huchelderau Brenhinol. Mae prif ystafelloedd Clarence House ar y llawr gwaelod ar agor i'r cyhoedd rhwng mis Awst a mis Hydref bob blwyddyn, er eu bod nhw'n cael eu cau am rai dyddiau yn ystod y cyfnod yma tra bo'r Tywysog a'r Dduges yn eu cartref.

	£miliwn
Grantiau Cymorth: Teithio swyddogol mewn awyrennau a threnau	**1.059**

Grant Cymorth y Teithiau Brenhinol yw'r arian blynyddol a ddaw gan yr Adran Drafnidiaeth i Aelwyd y Frenhines i dalu costau teithio brenhinol swyddogol mewn awyrennau a threnau. Incwm y Tywysog o Ddugaeth Cernyw sy'n talu costau ei deithiau swyddogol ef a Duges Cernyw mewn car.

Rhan bwysig o rôl Tywysog Cymru fel Etifedd yr Orsedd yw dod â phobl at ei gilydd yng ngwahanol rannau'r DU, gweithredu fel canolbwynt i fywyd y genedl a chynrychioli'r wlad dramor. Mae hyn yn golygu llawer o deithio, ac mae angen ei wneud mewn ffordd effeithlon a diogel sy'n cwrdd â'r gofynion cyflwyno. Yn 2004-05, fe deithiodd Ei Uchelder Brenhinol dros 65,700 milltir wrth fynd i a dod yn ôl o ymrwymiadau swyddogol yn y DU a thramor. Mae'r ffigur yn cynnwys bron 44,600 milltir o deithio mewn gwledydd tramor. Yn 2004-05, £1.06 miliwn oedd cyfanswm costau'r teithiau yma.

Mae'r ffigur yma'n cynnwys dim ond y costau amrywiol ar gyfer teithiau'n defnyddio Sgwadron 32, Hofrennydd Y Frenhines neu'r Trên Brenhinol. Gwneir hyn am fod costau awyrennau adenydd sefydlog a threnau'n digwydd p'un a ydyn nhw'n cael eu defnyddio neu beidio, a dydyn nhw ddim yn dod yn sgil unrhyw deithiau penodol. Mae esboniad llawn yn Adroddiad Blynyddol 2004-05 Grantiau Cymorth y Teithiau Brenhinol mewn Awyrennau a Threnau – mae'r adroddiad ar gael ar www.royal.gov.uk.

	£miliwn
Grantiau Cymorth: Cefnogaeth Cyfathrebu	**0.080**

Y Grant Cymorth Cyfathrebu a Gwybodaeth Frenhinol yw'r arian blynyddol a ddaw gan yr Adran dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon i Aelwyd y Frenhines i dalu costau gwasanaethau cyfathrebu a gwybodaeth yng nghyswllt achlysuron ac ymrwymiadau brenhinol swyddogol.

Mae Swyddfa Tywysog Cymru'n mynd i wariant wrth ddatblygu a chyflwyno rhaglen gyfathrebu gyffredinol, cynnal Swyddfa'r Wasg, diweddaru a datblygu'i gwefan, cynnig gwybodaeth gyffredinol ac addysgol i'r wasg a'r cyhoedd, a chynnig Swyddogion y Wasg i helpu'r cyfryngau mewn ymrwymiadau ac ymweliadau swyddogol. Tywysog Cymru ei hun sy'n talu'r rhan fwyaf o'r costau yma'n bersonol. Ond y Grant Cymorth Cyfathrebu a Gwybodaeth sy'n draddodiadol wedi talu'r costau a ddaw yn sgil helpu'r cyfryngau mewn ymrwymiadau ar draws y wlad.

	£miliwn
Teithiau tramor ac eilwyr milwrol	**0.307**

Mae'r Gwastrodion (un llawn amser ac un rhan amser) a thri o'r pedwar Swyddog Negesau'n cael eu secondio o'r lluoedd arfog i helpu Tywysog Cymru wrth iddo gyflawni'i ddyletswyddau swyddogol. Mae rôl y Gwastrodion yn cael ei esbonio ar dudalen 47. Y gost i'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn 2004-05 oedd £221,000.

Mae'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn talu costau Ymweliadau Swyddogol Tywysog Cymru â gwledydd tramor (ac eithrio costau teithio a ddaw o'r Grant Cymorth Teithio Brenhinol). Yn 2004-05, fe aeth Ei Uchelder Brenhinol ar deithiau swyddogol i'r Eidal, Iorddonen, Twrci, Awstralia, Seland Newydd a Ffiji. Mae'r ymweliadau yma'n cael eu gwneud ar gais y Swyddfa Dramor a Chymanwlad, a'u nod yw cryfhau a datblygu'r berthynas dda sydd gan y DU â gwledydd ar draws y byd. Costau'r ymweliadau yma i'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn 2004-05 oedd £86,000.

	£miliwn
Treth a gwariant personol	**5.226**

Mae Tywysog Cymru'n talu treth incwm yn wirfoddol ar incwm Dugaeth Cernyw. Y rheolau treth incwm arferol a'r graddfeydd treth presennol sy'n berthnasol. Fel unrhyw unigolyn preifat, mae hefyd yn talu treth incwm ar bob incwm arall a threth enillion cyfalaf. Yn ogystal â thalu am ddyletswyddau swyddogol a gweithgareddau elusennol Tywysog Cymru, a'i atebolrwydd i dalu treth incwm, mae incwm Dugaeth Cernyw hefyd yn talu costau gwariant personol Tywysog Cymru, Duges Cernyw, a'r Tywysogion William a Harry.

Mae gwariant personol yn cynnwys costau cyflogi 29.3 o staff personol sy'n cyfateb i amser llawn, yn cynnwys ysgrifenyddion personol, prif gogydd, gwastrodion, gweision, garddwyr, staff fferm a gweithwyr stad a staff ar gyfer Duges Cernyw a'r Tywysogion William a Harry. Mae gwariant personol hefyd yn cynnwys cyfran briodol o gostau Highgrove House a Birkhall, a chostau cynnal stad a gerddi Highgrove. Mae'r gwariant personol hefyd yn cynnwys costau Ei Uchelder Brenhinol a'r Tywysogion William a Harry wrth chwarae polo. Dim ond i godi arian at elusennau y bydd Tywysog Cymru'n chwarae polo'n awr. Yn ystod 2004, llwyddwyd i godi amcangyfrif o £900,000, oedd yn mynd â'r cyfanswm ar gyfer y 10 mlynedd ddiwethaf i £7.5 miliwn.

Mae canlyniadau Home Farm, fferm organig y Tywysog ar Stad Highgrove, wedi'u cynnwys dan y pennawd yma. Fferm weithio yw hon a gafodd ei sefydlu gan Dywysog Cymru i ddangos y buddion masnachol ac amgylcheddol sy'n dod o ffermio organig.

STAFF

Fel yr oedden nhw ar 31 Mawrth 2005, ac ar gyfer y flwyddyn hyd at yr un dyddiad

	Staff sy'n cyfateb i amser llawn	Costau Swyddogol £oedd
Ysgrifennydd Preifat a Chynorthwywyr	**3.0**	
Swyddfa'r Ysgrifennydd Preifat		
Dirprwy Ysgrifennydd Preifat	1.0	
Ysgrifenyddion Preifat Cynorthwyol	3.0	
Cynorthwywyr Ymchwil a Gweinyddol	7.1	
Gohebiaeth	4.0	
	18.1	**1,434**
Cyllid a Gweinyddu		
Trysorydd a Chynorthwyydd	2.0	
Cyllid	8.0	
Personél	4.6	
Archifau	3.0	
Rheolwr Systemau TG	1.0	
Swyddogion Negesau	3.5	
Derbynfa	1.0	
	23.1	**1,505**
Cyfathrebu		
Ysgrifennydd Cyfathrebu a Chynorthwyydd	2.0	
Ysgrifennydd y Wasg	1.0	
Ysgrifenyddion Cynorthwyol y Wasg	2.0	
Swyddogion y Wasg a Golygydd y Wefan	4.0	
	9.0	**561**
Meistr Adran yr Aelwyd		
Meistr yr Aelwyd a Chynorthwyydd	2.0	
Gwastrodion	1.5	
Cyd-drefnyddion Rhaglenni a Theithio	4.5	
Bwtleriaid	2.0	
Prif Gogyddion	4.0	
Gyrwyr	2.0	
Rheolwyr Tŷ a Staff Cadw Tŷ	8.3	
Gwas	1.0	
Staff Ystafell y Berllan (*Orchard Room*)	2.0	
Garddwyr a Gweithwyr Stad	8.1	
Gweinyddwr Teithiau'r Gerddi	1.0	
	36.4	**2,645**
Swyddfa Elusennau		
Cyfarwyddwr Elusennau a Chynorthwyydd	2.0	
Dirprwy Gyfarwyddwr Elusennau	1.0	
Pennaeth Datblygu	1.0	
Cynghorwr Elusennol a Chynorthwyydd	2.0	
Dadansoddwr	1.0	
	7.0	-
Cyfanswm y staff swyddogol ar 31 Mawrth 2005	**93.6**	
Cyfanswm costau'r dyletswyddau swyddogol a'r gweithgareddau elusennol am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2005		**6,145**

Swyddfeydd

Mae prif swyddfa Tywysog Cymru, lle mae'r rhan fwyaf o'i staff yn gweithio, yn Clarence House, sydd wrth ymyl Palas St James's yng nghanol Llundain, ac yn rhan o Balas St James's ei hun. Y Grant Cymorth Gwasanaethau Eiddo (cyfeiriwch at dudalen 42) sy'n talu costau cynnal adeiladwaith swyddfa Llundain, yn ogystal â chostau'r gwasanaethau a'r llinellau ffôn sefydlog (ond heblaw am gostau eraill swyddfa Llundain). Mae swyddfeydd ar gyfer staff swyddogol yn Highgrove a Birkhall, cartrefi preifat Tywysog Cymru, hefyd. Felly, mae rhai o gostau Highgrove a Birkhall yn cael eu cynnwys dan y categori 'Dyletswyddau Swyddogol a Gweithgareddau Elusennol', er mai dan wariant personol y Tywysog y bydd y rhan fwyaf o gostau'r ddau gartref yma'n cael eu dosbarthu.

Mae dyletswyddau pob un o adrannau'r Aelwyd yn cael eu disgrifio yn yr adran nesaf.

Yr Ysgrifennydd Preifat

Yr Ysgrifennydd Preifat yw uwch aelod Aelwyd Tywysog Cymru. Mae'n gyfrifol i Dywysog Cymru am bob agwedd ar weithrediad yr Aelwyd ac am oruchwylio mudiadau elusennol a rhai eraill Ei Uchelder Brenhinol.

Swyddfa'r Ysgrifennydd Preifat

Y Dirprwy Ysgrifennydd Preifat sy'n gyfrifol o ddydd i ddydd am redeg Swyddfa'r Ysgrifenyddion Preifat. Mae'r Dirprwy Ysgrifennydd a'r Ysgrifenyddion Preifat Cynorthwyol yn hyrwyddo a chefnogi dyletswyddau swyddogol, ymrwymiadau a gweithgareddau elusennol Tywysog Cymru. Maen nhw'n helpu i drefnu dyddiadur Tywysog Cymru a'i raglen o ymweliadau yn y wlad yma a thramor, yn trefnu sesiynau briffio, derbyniadau ac achlysuron eraill, yn gweinyddu gohebiaeth ac yn cyd-drefnu ymchwil a gwybodaeth sy'n cefnogi ei waith.

Mae'r naill Ysgrifennydd Preifat a'r llall yn gyfrifol am feysydd penodol ac am gydweithio â rhai o fudiadau penodol y Tywysog. Mae rhestr o'r cyfrifoldebau yma, a rhai'r staff uwch eraill, ar dudalen 51. Maen nhw hefyd yn gofalu bod Ei Uchelder Brenhinol yn cael gwybod am faterion cyfoes. Maen nhw'n cynnig gwybodaeth gefndirol iddo wrth iddo ysgrifennu llythyrau at Weinidogion a phobl amlwg eraill (er mwyn tynnu sylw at faterion a godwyd gan bobl yn ystod ei ymweliadau o gwmpas y wlad), ac ar gyfer ei areithiau a'i erthyglau.

Mae ymchwilwyr, cynorthwywyr personol a staff gweinyddol yn cefnogi'r Ysgrifenyddion Preifat, ac maen nhw'n gweithio'n agos gyda'u cydweithwyr yn Swyddfa Ysgrifenyddion Preifat y Frenhines.

Mae Tywysog Cymru, Duges Cernyw, Tywysog William a Thywysog Harry'n cael nifer fawr o lythyrau bob blwyddyn. Yn 2004-05, er enghraifft, fe gawson nhw 47,000 llythyr. Fe greodd priodas Tywysog Cymru a Duges Cernyw lawer o ohebiaeth ychwanegol. Yn y cyfnod rhwng cyhoeddi eu dyweddïad yn gynnar ym mis Chwefror a diwedd Mai 2005, fe gafodd y Swyddfa 23,083 llythyr am y briodas. Roedd 22,010 o'r rheini'n cefnogi'r briodas a 1,073 heb fod yn ei chefnogi.

Mae nifer fawr o wahanol bynciau'n cael eu codi yn y llythyrau i'r Aelwyd, a materion a phynciau trafod cyfoes sy'n eu hysgogi nhw'n aml. Mae Tywysog Cymru'n gweld dewis eang o'r llythyrau yma ac mae'n ysgrifennu'n bersonol dros 2,300 o lythyrau'r flwyddyn. Gofala Ei Uchelder Brenhinol fod yr Adran Ohebiaeth yn ateb ar ei ran y llythyrau nad yw ef ei hun neu ei Ysgrifenyddion Preifat yn eu hateb. Mae Tywysog Cymru hefyd yn cael nifer o geisiadau gan nifer o wahanol elusennau a mudiadau eraill am roddion neu eitemau i'w harwerthu. Yr Adran Gyllid sy'n delio â cheisiadau am roddion, tra bo'r Adran Ohebiaeth yn delio ag eitemau i'w harwerthu. Er ei bod hi'n amhosib ymateb i bob cais am eitemau i'w harwerthu, mae Ei Uchelder Brenhinol yn rhoi eitemau fel lithograffau o'i luniau dyfrlliw, llyfrau wedi'u llofnodi a theithiau o erddi Highgrove. Yn 2004-05, fe gododd eitemau a roddwyd i'w harwerthu dros £115,000 at elusennau.

Cyllid a Gweinyddu

Yr Adran Gyllid a Gweinyddu sy'n gyfrifol am reoli cyllid a phersonél, systemau gwybodaeth a gweinyddu cyffredinol ar draws yr Aelwyd. Y Trysorydd sy'n arwain yr adran, gyda help y Rheolwr Ariannol a Phennaeth Personél a Gweinyddu.

Mae'r Isadran Gyllid yn gweithredu rheolaeth ariannol drwy nifer o gyllidebau blynyddol, cyfrifon rheoli misol a chyfres o systemau a gweithdrefnau cyfrifyddu. Yr isadran yma sydd hefyd yn gyfrifol am ofalu cael y gwerth gorau am arian.

Y Trysorydd sydd â chyfrifoldeb ariannol a gweinyddol dros Sefydliad Elusennol Tywysog Cymru yn y DU. Y hi hefyd sy'n gyfrifol am un o is-gwmnïau masnachu Sefydliad y DU, A. G. Carrick Limited, sy'n cael yr incwm a ddaw o werthu lithograffau o luniau'r Tywysog, o'r breindaliadau ar gyhoeddi llyfrau ac o'r siop yn Highgrove. Mae incwm blynyddol Sefydliadau Elusennol y DU ac UDA dros £3.0 miliwn. Ers i'r Tywysog ddechrau codi arian at elusennau drwy werthu lithograffau o'i luniau dyfrlliw, amcangyfrifir fod £4 miliwn wedi'u codi. Mae'r Trysorydd hefyd yn monitro'r agweddau ariannol ar brif elusennau Ei Uchelder Brenhinol ac mae'n gyfrifol am faterion sy'n ymwneud â chyhoeddi, contractau a'r gyfraith.

Yr Isadran Bersonél sy'n rheoli recriwtio staff, cyflogau, hyfforddiant a datblygu, iechyd a diogelwch a chysylltiadau â staff. Mae tri Archifydd yn gyfrifol am reoli'r holl bapurau a'r ffeiliau sy'n ymwneud â bywyd cyhoeddus Tywysog Cymru ers diwedd yr 1960au. Mae papurau mwy diweddar yr archif yn cael eu cadw ym Mhalas St James's, a chofnodion hŷn yn cael eu storio yn yr Archifau Brenhinol ym Mhalas Windsor. Yr Uwch Archifydd sydd hefyd yn rheoli ceisiadau i'r Tywysog weithredu fel Noddwr neu Lywydd mudiad, ac unrhyw faterion yn ymwneud â nawddogaethau a llywyddiaethau sy'n bod yn barod. Isadran Rheoli Systemau Gwybodaeth Palas Buckingham sy'n darparu a chefnogi'r rhan fwyaf o systemau technoleg gwybodaeth yr Aelwyd. Y Rheolwr Cefnogi Systemau TG sy'n gyfrifol o ddydd i ddydd am weithrediad y systemau yma.

Mae'r Adran hefyd yn cynnwys Swyddogion Negesau (sy'n cynnal cyfarpar y swyddfa ac sy'n gyfrifol am offer swyddfa, deunydd ysgrifennu a cheir swyddfa), a Derbynyddion.

Cyfathrebu

Fel Etifedd yr Orsedd, mae diddordeb mawr gan y cyhoedd a'r cyfryngau yng ngweithgareddau Tywysog Cymru, yn ogystal â Duges Cernyw a Thywysog William a Thywysog Harry. Rôl Swyddfa'r Wasg yw rhoi gwybodaeth a chreu dealltwriaeth gadarn i gynulleidfa eang am waith a gweithgareddau Tywysog Cymru. Bydd Swyddfa'r Wasg hefyd yn trin a thrafod ymholiadau gan y cyfryngau am Dduges Cernyw, y ddau Dywysog a Dugaeth Cernyw. Mae hefyd yn cydweithio'n agos â chydweithwyr yn Swyddfa'r Wasg Palas Buckingham o safbwynt agweddau cyffredinol ar y Frenhiniaeth yn ei chyfanrwydd.

Yr Ysgrifennydd Cyfathrebu sy'n gyfrifol am Swyddfa'r Wasg. Mae Ysgrifennydd y Wasg, dau Ysgrifennydd Cynorthwyol y Wasg, tri Swyddog y Wasg, Golygydd y Wefan a chynorthwyydd personol i gyd yn rhan o'r adran.

Mae Swyddfa'r Wasg yn ymateb i dros 40,000 cais gan y cyfryngau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol bob blwyddyn. Mae hefyd yn trefnu cyfleusterau gan y cyfryngau ar gyfer holl ymrwymiadau cyhoeddus y Tywysog yn y DU a thramor, ac mae'n cyhoeddi tua 700 o ddatganiadau i'r wasg, cyhoeddiadau, datganiadau cyhoeddus a nodiadau gweithredol bob blwyddyn.

Mae cynnal gwefan Tywysog Cymru – www.princeofwales.gov.uk – hefyd yn rhan o rôl Swyddfa'r Wasg. Yn 2004-05, fe ddenodd y wefan dros 12.6 miliwn o argraffiadau tudalen (dros ddwywaith cyfanswm y flwyddyn flaenorol), ac mae'n para'n adnodd poblogaidd fel lle i'r cyfryngau, ymchwilwyr a'r cyhoedd o'r DU a thramor gael gwybodaeth. Yn ogystal â'r newyddion diweddaraf am ymrwymiadau Ei Uchelder Brenhinol, mae'r safle'n cynnig gwybodaeth am ei waith a'i weithgareddau elusennol, ei areithiau diweddaraf, manylion hanesyddol, erthyglau a set o luniau. Mae gwybodaeth ar y safle hefyd am Dduges Cernyw, Tywysog William a Thywysog Harry.

Meistr Adran yr Aelwyd

Mae staff Swyddfa'r Gwastrawd yn cyd-drefnu rhaglen ymrwymiadau Tywysog Cymru. Y nhw sy'n rheoli ei ddyddiadur o ddydd i ddydd, gan weithredu fel rhyngwyneb rhwng staff, yr heddlu a mudiadau allanol, ac yn cynllunio'i raglen dymor hir. Y nhw hefyd sy'n rheoli'r trefniadau logistaidd a thrafnidaeth ar gyfer ymweliadau swyddogol y Tywysog gartref a thramor. Fel arfer, mae dau brif ymweliad tramor bob blwyddyn. Swyddog milwrol sy'n dal mewn gwasanaeth yw'r Gwastrawd, wedi'i secondio o'r Lluoedd Arfog i'r Aelwyd am gyfnod o ryw ddwy flynedd.

Bob blwyddyn, fe gaiff y Tywysog filoedd o wahoddiadau gan nifer o wahanol fudiadau'r sectorau cyhoeddus a phreifat. Fe fydd Tywysog Cymru ei hun a'i Swyddfa'n ystyried pob un yn ofalus. Mae'r Gwastrawd yn cysylltu â'r Ysgrifenyddion Preifat, Swyddfa'r Wasg, a mudiadau'r Tywysog i ofalu bod Ei Uchelder Brenhinol yn cynnwys dewis eang o ddiddordebau ac yn cwrdd trawstoriad eang o bobl yn gymaint o rannau'r wlad ag sy'n bosib.

Mae'r Gwastrawd a'r Gwastrawd Dros Dro hefyd yn gweithredu fel man cysylltu ar faterion milwrol ac amddiffyn. Mae Tywysog Cymru'n cynnal cyswllt agos iawn â'r Lluoedd Arfog, ym Mhrydain ac yn y Gymanwlad. Yn ogystal â dal penodiadau fel Is-Lyngesydd, Is-gadfridog a Marsial Awyr yng Ngwasanaethau Arfog y genedl, mae hefyd yn gweithredu fel Prif Gyrnol naw o gatrodau'r Fyddin Brydeinig a naw o gatrodau'r Gymanwlad. Mae hefyd yn Brif Gyrnol y Gwarchodlu Cymreig, Dirprwy Brif Gyrnol Yr Ucheldirwyr, Cyrnol Brenhinol Anrhydeddus Iwmyn y Frenhines, Prif Gomodor Awyr Awyrlu Brenhinol Seland Newydd a Chomodor Awyr Anrhydeddus yr Awyrlu Brenhinol yn y Fali.

Mae Tywysog Cymru'n arwain tua 8 Arwisgiad ym Mhalas Buckingham bob blwyddyn, ac mae'n mynd i nifer o achlysuron gwladol ar ran y Frenhines. Swyddfa'r Gwastrawd sy'n gyfrifol am drefnu'r holl ymrwymiadau yma.

Mae croesawu swyddogol yn rhan bwysig o rôl Tywysog Cymru. Y llynedd, fe ddiddanodd ychydig yn llai na 7,400 o westeion yn Clarence House a chartrefi brenhinol eraill. Mae'r achlysuron yma'n amrywio o groesawu gwesteion swyddogol a phobl bwysig o wledydd tramor i gynnal ciniawau a chyngherddau i ddiolch i'r rheini sy'n ymwneud â'i elusennau. Yn 2004-05, fe arweiniodd Ei Uchelder Brenhinol 68 o dderbyniadau, seminarau, ciniawau canol dydd a phrydau hwyr oedd yn amrywio o giniawau bach canol dydd i ddigwyddiadau ar gyfer cannoedd o westeion.

Mae gofyn i'r rhan fwyaf o'r staff sy'n rheoli ac yn trefnu'r achlysuron yma fod ar ddyletswydd saith diwrnod yr wythnos, yn cynnwys y rhan fwyaf o fin nosweithiau. Maen nhw'n dilyn trefn o weithio am wythnos, gydag wythnos o seibiant yn ei ddilyn. Mae costau staff sy'n helpu Tywysog Cymru yn ei rôl breifat yn cael eu dosbarthu dan bennawd gwariant personol. Bydd bwtleriaid yn gweithredu 'ym mlaen y tŷ' ar ran Tywysog Cymru, gan gwrdd gwesteion, trefnu lluniaeth ysgafn a gosod ystafelloedd. Maen nhw'n gweithio'n agos gyda'r Rheolwyr Tŷ, sy'n goruchwylio'r holl drefniadau domestig a glanhau, a gyda'r Prif Gogyddion. Wrth gynnal y prif dderbyniadau a chiniawau, bydd y rheolwyr digwyddiadau'n goruchwylio'r holl drefniadau cynllunio, gweinyddu ac arlwyo. Mae un Bwtler ar ddyletswydd bob amser. Mae Gweision gan Dywysog Cymru i'w helpu wrth wisgo'i ddillad a'i wisgoedd swyddogol, ac wrth drefnu ei ddillad personol.

Mae Tywysog Cymru'n defnyddio'i gartref preifat yn Highgrove, ac yn arbennig Ystafell y Berllan sydd yn ei erddi, i gynnal ymrwymiadau swyddogol a diddanu. Fe gafodd Ystafell y Berllan ei dylunio a'i hadeiladu gan y Tywysog yn benodol ar gyfer diddanu gwesteion o dramor. Mae'n cael ei defnyddio'n helaeth: yn 2004-05, er enghraifft, fe gafodd ei defnyddio ar gyfer 21 o dderbyniadau, seminarau a chyfarfodydd briffio ar gyfer 2,300 o westeion.

Y llynedd, fe aeth dros 24,500 o bobl o gwmpas gerddi Highgrove, gan orffen â lluniaeth yn Ystafell y Berllan. Yn yr haf, gall hyd at naw taith o 25 o bobl yr un gael eu cynnal bob diwrnod, sy'n golygu cyfanswm o ryw 900 taith y flwyddyn. Rhyngddyn nhw, fe roddodd yr ymwelwyr yn wirfoddol gyfanswm o £63,500 at fudiadau elusennol y Tywysog. Hefyd mae'r rheini sy'n mynd i dderbyniadau swyddogol fel arfer yn cael mynd o gwmpas y gerddi. Bwriad y teithiau yma yw cydnabod gwasanaeth neu sefyllfaoedd arbennig, ond maen nhw hefyd yn dangos, drwy esiampl, fanteision dulliau naturiol o reoli tir a garddio'n organig. Gan ei fod wedi ymrwymo i warchod treftadaeth naturiol Prydain, mae'r Tywysog yn defnyddio'r ardd fel lle i warchod amrywiaethau o goed, planhigion a blodau sydd dan fygythiad.

Mae ymwelwyr â'r ardd yn cynnwys grwpiau elusennol a garddwyr, tra bo myfyrwyr ac ymchwilwyr garddwriaeth yn gweithio yn yr ardd drwy gydol y flwyddyn. Nid oes unrhyw dâl am y daith na'r lluniaeth, ond fe all ymwelwyr brynu eitemau o Siop Highgrove sy'n rhoi ei holl elw i Sefydliad Elusennol Tywysog Cymru yn y DU.

Mae'r Tywysog yn cyflogi tîm o Arddwyr. Gan mai'r cyhoedd sy'n defnyddio'r ardd yn bennaf ar gyfer ymweliadau, mae'r rhan fwyaf o'r costau'n cael eu clustnodi fel gwariant swyddogol (er bod incwm preifat Ei Uchelder Brenhinol yn talu costau swyddogol a chostau personol). Caiff y gweddill, sy'n debygol o ymwneud â mwynhad personol y Tywysog o'r ardd, eu clustnodi fel gwariant personol.

Elusennau

Fe gafodd Swyddfa Elusennau newydd ei chreu yn 2003-04 drwy benodi Cyfarwyddwr a Dirprwy Gyfarwyddwr Elusennau. Ers hynny, mae rhagor o aelodau staff wedi ymuno ar sail llawn a rhan amser, yn cynnwys Pennaeth Datblygu, Cynghorwr Elusennol, a Dadansoddwr. Daw costau'r Swyddfa Elusennau o Sefydliad Elusennol Tywysog Cymru.

Prif gyfrifoldeb y Swyddfa yw cynnig cefnogaeth a chyngor i elusennau Tywysog Cymru, yn arbennig yr 16 mudiad craidd. Fe fyddan nhw'n cynghori ar faterion fel rheoli corfforaethol, polisïau o safbwynt rhoddion a chodi arian, cynllunio, a chyfathrebu. Yn y cyswllt yma, ar ddiwedd y flwyddyn, fe gyhoeddodd y Swyddfa Elusennau set gyflawn o Ganllawiau Gweithredu i'w defnyddio gan bob un o brif elusennau'r Tywysog.

Mae'r Swyddfa hefyd yn hyrwyddo cyswllt a synergedd rhwng yr elusennau, mae'n helpu wrth benodi cadeiryddion ac ymddiriedolwyr, ac mae'n goruchwylio gwaith datblygu syniadau a mentrau newydd. Unwaith eto, fe lwyddodd y Swyddfa i symud y holl feysydd yma yn eu blaen yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn arbennig o ran sefydlu cysylltau agosach a gwell cyfathrebu rhwng yr elusennau. Mae projectau newydd, fel Menter y Tywysog yn India yn tystio i gyfraniad cynyddol y Swyddfa Elusennau.

Bu'r Swyddfa hefyd yn rhan o'r gwaith o greu delwedd newydd ar y cyd i'r 16 mudiad - yr enw arnyn nhw bellach yw "Elusennau'r Tywysog" - gan gyhoeddi deunydd sy'n esbonio'u gwaith a'r hyn maen nhw wedi'i gyflawni.

YMWELIADAU BLYNYDDOL

Mae'r Tywysog yn mynd ar nifer o ymweliadau â'r Alban a Chymru bob blwyddyn. Mae hefyd yn aros ym Mhalas Holyroodhouse yn yr Alban ar gyfer wythnos o waith, ac mae'n cyflawni cyfres o ymrwymiadau swyddogol yng Nghymru. Roedd costau'r ymweliadau blynyddol hirach yma, sy'n berthnasol i dderbyniadau a chiniawau'n bennaf, yn dod i ryw £44,000, ac maen nhw wedi'u cynnwys dan wariant 'diddanu swyddogol'.

DADANSODDIAD O'R COSTAU SWYDDOGOL YN ÔL CATEGORI GWARIANT

Fe gafodd gwariant ei ddadansoddi a'i esbonio yn yr adrannau blaenorol yn ôl adrannau. Mae'r tabl sy'n dilyn yn dadansoddi'r gwariant ar ddyletswyddau swyddogol a gweithgareddau elusennol yn ôl categori.

Am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth	**£oedd** 2005	**£oedd** 2004
Costau staff	3,814	3,213
Hyfforddiant, recriwtio a lles staff	133	148
Teithio a chynhaliaeth	174	176
Ymgynghori allanol a ffioedd proffesiynol	262	238
Diddanu swyddogol	507	655
Rhoddion ac anrhegion	35	72
Gwasanaethau	72	116
Cartrefi a swyddfeydd	515	643
Y wasg a gwasanaethau gwybodaeth	90	84
Deunydd ysgrifennu ac offer swyddfa	102	80
Systemau TG	129	241
Cadw Tŷ	96	64
Yswiriant	64	40
Gerddi	30	38
Dibrisio	122	139
Cyfanswm	**6,145**	**5,947**

Mae'r prif amrywiannau rhwng gwariant y flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn flaenorol yn cael eu hesbonio yma.

Costau staff
Mae'r costau o £3.8 miliwn yn berthnasol i'r 93.6 o staff swyddogol. Mae'n cynnwys cyflogau, Yswiriant Gwladol a chyfraniadau pensiwn a buddion eraill. Bu cynnydd o 9.5 yn nifer y staff swyddogol yn ystod y flwyddyn, wrth i 4 aelod ychwanegol ymuno â staff y Swyddfa Elusennau wrth iddi barhau i ddatblygu'i rôl. Mae'r cynnydd o 19 y cant yn y costau staff yn adlewyrchu codiadau cyflog (yn bennaf i wneud iawn am chwyddiant), y cynnydd yn niferoedd y staff a'r costau sylweddol uwch o ariannu cynllun pensiwn buddion diffiniedig y staff.

Ymgynghori allanol a ffioedd proffesiynol
Elfen fwyaf y costau yw'r ffioedd cyfreithiol a ddaeth yn sgil amddiffyn achos mewn Tribiwnlys Cyflogaeth. Fe ddyfarnodd y Tribiwnlys o blaid yr Aelwyd ym mhob un o'r pwyntiau.

Diddanu swyddogol
Mae diddanu swyddogol yn cynnwys derbyniadau, ciniawau canol dydd a phrydau hwyr yn Clarence House, Ystafell y Berllan yn Highgrove, Holyroodhouse a nifer o leoliadau eraill. Fe leihaodd gostau'r maes yma yn 2004-05 oherwydd cymysgedd y digwyddiadau a mesurau sy'n para ar gyfer rheoli costau, er na fu fawr o newid yn nifer y digwyddiadau swyddogol o'u cymharu â 2003-04. Mae'r costau'n cynnwys gwaith cynnal a chadw a rhent Ystafell y Berllan.

Cartrefi a swyddfeydd
Mae gostyngiad y gwariant yn adlewyrchu lleihad y gwariant ar ailwampio swyddfeydd ar ôl gorffen y symudiad i Clarence House yn 2003-04.

Deunydd ysgrifennu ac offer swyddfa
Mae cynnydd y gwariant yn 2004-05 yn adlewyrchu mwy o wariant ar gyfarpar cost isel fel cabinetau, desgiau a chadeiriau ar gyfer swyddfeydd a staff newydd.

Systemau TG
Fe gafodd buddsoddiad sylweddol ei wneud yn 2003-04 i ddiweddaru'r systemau.

CYFRIFOLDEB CYMDEITHASOL CORFFORAETHOL

Mae Tywysog Cymru'n dadlau'n frwd o blaid annog busnesau i fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau amgylcheddol a chymdeithasol. Mae'n disgwyl i'w Aelwyd ei hun geisio cyflawni arfer gorau yn y maes yma.

O ran materion amgylcheddol, mae'r Aelwyd yn defnyddio cyflenwyr sy'n gweithredu'n gadarnhaol i leihau eu heffaith amgylcheddol. Mae'r defnydd o ynni'n cael ei fonitro a thargedau'n cael eu gosod i leihau'r defnydd.

Mae'r Aelwyd yn awyddus i drosi'i cheir fel eu bod nhw'n defnyddio ynni'n fwy effeithiol, pan fo'r math yna o geir yn gallu cwrdd â'r gofynion gweithredu. Er enghraifft, mae car tanwydd deuol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer teithiau byr o gwmpas Llundain, ac mae disgwyl i staff rannu ceir os bydd hynny'n ymarferol.

Daeth gohebiaeth electronig yn fwyfwy cyffredin ar draws yr Aelwyd, ac fe aiff hen gyfrifiaduron fel rhoddion i elusennau a chetris argraffwyr i'w hailgylchu. Mae camau syml fel llungopïo ac argraffu ar ddwy ochr dalen o bapur yn cael eu hannog fel ffordd o gwtogi ar y defnydd o bapur. Caiff yr holl garpion papur eu hailgylchu ac mae'r Aelwyd yn prynu papur wedi'i ailgylchu. Lle bynnag mae hynny'n bosib, bydd gwydr a thuniau'n cael eu hailgylchu a gwastraff arall yr aelwyd ei gompostio. Yn unol ag egwyddorion Ei Uchelder Brenhinol, mae gerddi Clarence House bellach yn gwbl organig.

Yn Highgrove, mae'r Tywysog wedi comisiynu adolygiad arall o weithgarwch y stad er mwyn adnabod ffyrdd posib o leihau effaith amgylcheddol y gweithgarwch. Rhan o waith yr adolygiad amgylcheddol fydd asesu pa mor gost-effeithiol fyddai trosi systemau gwresogi peth o eiddo'r stad, neu'r eiddo i gyd, yn rhai sy'n defnyddio sglodion pren. Mae gwresogi tai a dŵr yn y ffordd yma'n niwtral o safbwynt carbon ac mae'n cyfrannu at y broses o leihau allyriadau CO_2 i'r amgylchedd. Fe gafodd paneli solar eu gosod eisoes ar adeilad newydd llaethdy Duchy Home Farm. Y rhain sy'n gwresogi dŵr y llaethdy, ac mae cerbydau'r fferm yn defnyddio biodanwydd.

Mae'r Aelwyd yn rhan weithredol o'r cymunedau o'i chwmpas. Yn ogystal ag agor i'r cyhoedd, fe ddaeth tair ysgol leol i Clarence House y llynedd i weld sut mae staff yn rhedeg yr Aelwyd, fel rhan o gwricwlwm hanes a dinasyddiaeth yr ysgol. Yn yr un ffordd, fe gaiff grwpiau lleol a grwpiau cenedlaethol fel ei gilydd eu gwahodd i ymweld â gerddi Highgrove rhwng mis Ebrill a mis Hydref bob blwyddyn. Er enghraifft, fe fu garddwyr Highgrove yn diddanu grŵp o Geidiau o Swindon ym mis Mawrth 2005, tra bo myfyrwyr garddwriaeth ac amaethyddiaeth yn cael cyfle i ddod ar brofiad gwaith bob haf. Mae staff y gerddi'n cynnwys hyfforddai a ddaeth yn ôl i weithio fel rhan o gynllun sy'n cael ei weithredu gan Gymdeithas Bwyd a Gerddi Menywod (*Women's Food and Garden Association*).

Gweithredodd y Tywysog ei farn o ran defnyddio ffynonellau lleol drwy sefydlu cynllun bocs llysiau sy'n cael ei weithredu o Duchy Home Farm, ac sy'n cyflogi dau aelod o staff. Caiff y llysiau sy'n cael eu tyfu ar y fferm eu gwerthu'n lleol yn ardal Tetbury ac, mewn rhai achosion, eu cludo'n uniongyrchol i gwsmeriaid. Bu'r cynllun mor llwyddiannus fel bod mwy o lysiau'n cael eu plannu ar dir y fferm eleni.

Mae Ei Uchelder Brenhinol hefyd yn defnyddio Home Farm fel ardal gadwraeth ar gyfer rhywogaethau sydd dan fygythiad. Hefyd mae'r Gymdeithas Bridd (*Soil Association*) y mae'r Tywysog yn gweithredu fel ei Noddwr, yn ei defnyddio fel fferm arddangos. Yn 2004, fe aeth y gymdeithas â 130 o ymwelwyr o gwmpas y fferm ar saith wahanol daith. Yn ôl Patrick Holden, Cyfarwyddwr y Gymdeithas Bridd, mae'r teithiau'n gwneud byd o wahaniaeth: "Mae cael mynd i'r fferm a gerddi Highgrove wedi gweithredu fel yr un peth dylanwadol a lwyddodd i roi mesur o hyd a lled posibiliadau bwyd a ffermio organig i'r rheini sy'n llunio polisïau, cyfathrebwyr y cyfryngau, perchnogion tir a chynrychiolwyr y diwydiant bwyd."

Er 1990, mae Tywysog Cymru wedi'i gwneud hi'n ofynnol i Ddeiliaid ei Warant gwrdd â meini prawf amgylcheddol penodol. Mae targedau addas yn cael eu gosod nawr i Ddeiliad pob Gwarant, fel ei bod hi'n bosib asesu wrth wneud adolygiadau cyfnodol ar eu Gwarantau a yw eu heffaith ar yr amgylchedd wedi lleihau.

PORTFFOLIOS UWCH REOLWYR

Portffolios grŵp yr uwch reolwyr
Sir Michael Peat
Ysgrifennydd Preifat
– Cyfrifoldeb cyffredinol dros yr Aelwyd a'r Swyddfa
– Materion cyfansoddiadol, gwladwriaethol a seremonïol
– Yr Eglwys yn Lloegr ac enwadau Cristnogol eraill
– Cadeirydd Sefydliad Elusennol Tywysog Cymru
– Dugaeth Cernyw
– Duchy Originals
– Y Stadau Preifat

Elizabeth Buchanan
Dirprwy Ysgrifennydd Preifat
– The Prince's Trust
– Busnes cyfrifol, yn cynnwys Busnes yn y Gymuned ac *In Kind Direct*
– Amaethyddiaeth a materion gwledig
- Yr amgylchedd naturiol, yn cynnwys Rhaglen Fusnes a'r Amgylchedd Tywysog Cymru, a physgota morol
– Yr Heddlu

Kevin Knott
Meistr yr Aelwyd
– Gwaith goruchwylio cyffredinol y rhaglen a'r dyddiadur
- Goruchwylio cyffredinol dros dderbyniadau a diddanu
– Staff personol
– Pob cartref
– Materion diogelwch
– Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol
– Duchy Home Farm
– Sefydliad Elusennol UDA

Leslie Ferrar
Trysorydd, gyda chymorth Gary Atack, Rheolwr Ariannol,
Mimi Watts, Pennaeth Personél a Gweinyddu, a
David Hutson, Trysorydd Cynorthwyol a Rheolwr Cofnodion
– Cyfrifoldeb cyffredinol dros faterion ariannol, cyfrifyddiaeth a buddsoddi
– Personél
– Technoleg gwybodaeth
– Archifau a rheoli cofnodion
– Materion yn ymwneud â chyhoeddi, masnachu, contractau a'r gyfraith
– AG Carrick
– Ysgrifennydd cwmni Duchy Originals
– Goruchwylio'r holl agweddau ariannol ar elusennau Tywysog Cymru, gyda'r Cyfarwyddwr Elusennau

Paddy Harverson
Ysgrifennydd Cyfathrebu, gyda chymorth Patrick Harrison, Ysgrifennydd y Wasg
– Holl agweddau'r cyfryngau ar gyfer Tywysog Cymru, Duges Cernyw, Tywysogion William a Harry a Dugaeth Cernyw.

Sir Tom Shebbeare
Cyfarwyddwr Elusennau, gyda chymorth Marie-Christine Poulain, Dirprwy Gyfarwyddwr Elusennau ac Oliver Brind, Pennaeth Datblygu
– Strategaeth a chyd-drefniadau cyffredinol Elusennau'r Tywysog, yn cynnwys yn benodol codi arian a rheoli
– Rheolwr-Gyfarwyddwr Sefydliad Elusennol Tywysog Cymru

Mark Leishman
Ysgrifennydd Preifat Cynorthwyol
– Yr Alban, yn cynnwys mudiadau Tywysog Cymru yn yr Alban
– Iechyd, yn cynnwys Mudiad Tywysog Cymru er Iechyd Integredig
– Addysg, yn cynnwys yr Ysgol Haf Addysg
– Anabledd
– Adran Gyfathrebu, dan reolaeth Claudia Holloway, *Pennaeth Gohebiaeth*

James Kidner
Ysgrifennydd Preifat Cynorthwyol
– Gogledd Iwerddon
– Materion tramor, yn cynnwys teithiau tramor
– Y Gymanwlad

- Datblygu rhyngwladol, yn cynnwys Fforwm Tywysog Cymru i Arweinwyr Busnesau Rhyngwladol
– Celfyddyd, yn cynnwys Celfyddyd a Busnes, Sefydliad Tywysog Cymru er Celfyddyd a Phlant ac Ysgol Gelfyddyd Draddodiadol y Tywysog
– Cymunedau a ffydd ethnig

Manon Williams
Ysgrifennydd Preifat Cynorthwyol
– Cymru
– Yr amgylchedd adeiledig, yn cynnwys Sefydliad y Tywysog er yr Amgylchedd Adeiledig
– Treftadaeth, yn cynnwys Ymddiriedolaeth y Tywysog er Adfywio
– Ysgol Lluniadu'r Tywysog
– Pobl oedrannus, yn cynnwys PRIME/PRIME-Cymru

Amanda MacManus
Ysgrifennydd Preifat Cynorthwyol (rhan amser)
– Trefnu a chydlynu ymrwymiadau, gwaith elusennol a dyddiadur Duges Cernyw

Joy Camm
Ysgrifennydd Preifat Cynorthwyol (rhan amser)
– Trefnu a chydlynu ymrwymiadau, gwaith elusennol a dyddiadur Duges Cernyw

Katy Golding
Ysgrifennydd Preifat Cynorthwyol
– Trefnu a chydlynu ymrwymiadau, gwaith elusennol a dyddiadur Duges Cerny

Jamie Lowther-Pinkerton
Ysgrifennydd Preifat i Dywysog William a Thywysog Harry (rhan amser), gyda chymorth Helen Asprey, Ysgrifenyddes Bersonol i'r Tywysogion
– Cynnig cyngor i'r Tywysogion ar eu gyrfaoedd, eu nawddogaethau elusennol a materion eraill, a threfnu ymrwymiadau swyddogol

Arweinydd Sgwadron Richard Pattle
Gwastrawd
– Y Lluoedd Arfog
– Rhaglen, dyddiadur, teithio a logisteg
– Arwisgiadau
– Y Gwasanaethau Argyfwng
– Chwaraeon
– Fforwyr ac Anturiaethwyr

Virginia Carington
Cynorthwyydd Arbennig i Dywysog Cymru a Duges Cernyw
– Y Casgliad Brenhinol
– Llythyrau personol ac ymrwymiadau preifat